



Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

CRONFA GRANT ARGYFWNG ARWYR Y FRO

Nodiadau Canllaw

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor cysylltwch â thîm Datblygu Economaidd y Cyngor gyda'ch syniad chi:

E-bost: heroes_applications@valeofglamorgan.gov.uk

Ffôn: 01446 704755

Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

Beth yw Cronfa Grant Argyfwng Arwyr y Fro?

Bydd Cronfa Grant Argyfwng Arwyr y Fro yn cynnig grantiau i Grwpiau Cymunedol, y Sector Gwirfoddol, Cyngorau Tref a Chymuned a busnesau cymwys* tuag at gost mentrau ym Mro Morgannwg sy'n helpu aelodau o'r gymuned y mae'r pandemig Covid-19 yn effeithio'n ddifrifol arnynt.

Nod y gronfa yw:

1. Talu costau offer, peiriannau ac asedau eraill at y diben o gyflenwi gwasanaethau'n effeithlon i drigolion y Fro y mae angen cymorth arnynt.
2. Cynnig cymorth i brofi mentrau newydd sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghenion preswylwyr ac sydd â'r potensial i gyflawni effeithiau yn y tymor hwy a/neu gael eu haildrodd mewn cymunedau ar draws y Fro.
3. Cynnig cefnogaeth gyffredinol i ddarparu gwasanaethau i gymunedau mewn angen o ganlyniad i'r argyfwng Covid-19.

Gweler yr adran '**Beth sy'n gallu cael ei ariannu?**' ar dudalen 3 y ddogfen hon am ragor o fanylion am y math o brosiectau y gellir eu cefnogi.

Sut mae ymgeisio?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi Ffurflen Gais Grant Argyfwng Arwyr y Fro a'i chyflwyno ar-lein. Dylai unrhyw un sy'n ystyried gwneud cais gysylltu â'r **Tîm Datblygu Economaidd** cyn llenwi ffurflen gais i drafod eich syniad ac i gael cyngor ar gymhwysedd.

Dylid anfon ymholiadau a cheisiadau wedi'u cwblhau drwy e-bost i:

heroesapplications@valeofglamorgan.gov.uk neu
ffoniwch 01446 704755 i gael cyngor cyn ymgeisio

Fel arfer bydd angen gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'ch cais. Yn benodol, bydd angen tystiolaeth o unrhyw ganiatadau neu drwyddedau sydd eu hangen i ganiatáu i chi gyflawni eich prosiect. Os yn bosibl, dylech roi dyfynbrisiau gyda'ch cais. Gweler cyngor pellach ar dudalen 7 o'r canllaw hwn ar ofynion tendro.

Pwy all wneud cais?

Mae'r categorïau canlynol o sefydliadau yn gymwys i wneud cais:

- Grwpiau cymunedol a mudiadau gwirfoddol
- Cyngorau Tref a Chymuned, yn annibynnol neu mewn partneriaeth â grŵp cymunedol lle mae gan yr olaf ddifffyg statws cyfreithiol
- *Mentrau a busnesau cymdeithasol sy'n dymuno treialu menter newydd wedi'i hanelu'n
**uniongyrchol at fynd i'r afael ag angen/anghenion cymunedol lleol.

*Dylech nodi nad grant cymorth busnes yw hwn ac na fydd yn talu costau arallgyfeirio busnes. **Dim ond os ydynt wedi dangos tystiolaeth o gysylltiadau uniongyrchol ag elusennau neu sefydliadau gwirfoddol i nodi angen penodol, a phan nad yw'n briodol i'r sefydliad hwnnw arwain y cais, y caiff ceisiadau eu hystyried.

Am faint y gallwn ni wneud cais?

Nid oes isafswm grant. Uchafswm y grant a ganiateir yw £3,000. Gwahoddir ceisiadau am gyllid ar gyfer y flwyddyn bresennol a rhaid cwblhau'r prosiectau cyn 31^{ain} Rhagfyr 2020.

Peidiwch â gadael i'r ffurflen gais eich digalonni rhag gwneud cais – mae'r Cyngor yma i'ch cefnogi drwy'r broses o wneud cais. Rydym yn gobeithio y bydd hyn o gymorth i chi yn y dyfodol os byddwch yn gwneud cais am arian gan gyrff eraill. Cyn i chi wneud cais, siaradwch drwy eich syniad gydag aelod o'n tîm. Y prif fanylion yr hoffem eu gwybod yw'r hyn rydych am wario eich grant arno, yr hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni, pwy fydd yn elwa a sut y bydd hyn yn helpu'r gymuned yn y tymor hirach.

Gallwch wneud cais am 100% o gost eich prosiect hyd at uchafswm grant o £3000. Bydd angen meintioli amser gwirfoddolwyr, neu gyfraniadau gan fusnesau a sefydliadau, mewn rhai achosion. Dylech hefyd ddweud wrthym os yw eich prosiect yn rhan o fenter fwy a/neu os oes cyfranwyr eraill fel ein bod yn deall graddfa lawn y prosiect.

Beth y gellir ei ariannu?

Dyma rai enghreifftiau o bethau y gellid eu cefnogi. (Nid yw hon yn rhestr gyflawn).

- Prynu a llogi cyfarpar (gan gynnwys cyfarpar TG), offer, dodrefn, peiriannau, gosodiadau a ffitiadau neu ddeunyddiau eraill sydd eu hangen ar gyfer y prosiect neu i ddarparu gwasanaethau a nodwyd
- Marchnata, argraffu, cyfieithu a chost deunyddiau eraill sydd eu hangen ar gyfer y prosiect.
- Mân waith ar dir a safle, ac addasu safleoedd i ganiatáu i wasanaeth gael ei ddarparu.
- Addasu cerbydau
- Gweithgareddau sy'n cyfuno adnoddau ar draws sawl sefydliad er mwyn arbed costau
- Costau sy'n gysylltiedig ag ymgynghori ar y prosiect
- Costau Staff y Prosiect
- Hyfforddiant
- Teithio a chynhaliadau sy'n gysylltiedig â'r prosiect, gan gynnwys costau gwirfoddolwyr
- TAW nad oes modd ei hadennill
- Cyfraniad at orbenion y prosiect hyd at uchafswm o 10% o gyfanswm gwerth y cyllid y gwnaed cais amdano

Beth na ellir ei ariannu?

Dyma enghreifftiau o bethau na roddir arian ar eu cyfer fel rheol: (Nid yw hon yn rhestr gyflawn).

- Costau rhedeg o ddydd i ddydd (e.e. staff craidd, biliau'r adeilad, treth gyngor, rhent ac yswiriant)
- Prosiectau sy'n gymwys am gymorth gan gynlluniau eraill y Cyngor
- Prosiectau na allant ddangos angen
- Digwyddiadau codi arian untro
- Prosiectau sy'n mynd rhagddynt neu'n cychwyn cyn i ni gadarnhau ein grant
- Eitemau sydd o fudd i unigolion yn bennaf (er enghraifft offer na gaiff ei rannu)
- Gweithgareddau crefyddol neu wleidyddol, gan gynnwys grwpiau ymgyrch
- Lletygarwch e.e. prynu alcohol
- Gwaith trwsio a chynnal arferol - e.e. gwasanaethu boeler, torri gwair
- Prosiectau sydd ddim yn digwydd ym Mro Morgannwg
- Prynau cerbydau modur.
- TAW y mae modd ei adennill

Efallai y bydd yr enghreifftiau canlynol yn eich helpu i benderfynu ar gymhwysedd eich prosiect.

Yr hyn y byddem yn ei gefnogi:

Enghraifft 1: Cysylltu pobl hŷn

Dan arweiniad y gymuned

Menter i roi iPads neu ddyfeisiau eraill i breswylwyr cartrefi gofal i'w helpu i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau. Gallai'r grant dalu am gost prynu a dosbarthu yn ogystal â pheth hyfforddiant i staff. Byddai trigolion yn cael eu hannog i rannu eu profiad o ffyrdd newydd o gyfathrebu, a byddai gwersi a ddysgwyd yn cael eu hystyried ar gyfer mentrau tebyg yn y dyfodol.

Enghraifft 2: Dosbarthu bwyd i breswylwyr agored i niwed neu ynysig

Dan arweiniad busnes

Mae elusen wedi cysylltu â chaffi sy'n cefnogi trigolion sy'n agored i niwed yn y Fro. Mae'r elusen wedi nodi bod nifer o drigolion yn cael trafferth yn paratoi prydau bwyd llawn, rheolaidd yn y cartref gyda'r cyflenwadau bwyd cyfyngedig y gallant eu cael a byddent yn hoffi gweithio gyda'r caffi i drefnu gwasanaeth dosbarthu Cinio Dydd Sul. Mae'r elusen yn cynnig y bydd y trigolion yn talu am eu pryd bwyd, ac y bydd eu gwirfoddolwyr yn helpu gyda'r gwaith o ddosbarthu'r bwyd, ond mae angen i'r caffi brynu nifer o gyflenwadau mewn swmp ac ni all yn realistig drosglwyddo'r gost lawn i'r trigolion.

Gallai grant dalu am gostau cyflenwad o focsys, rhai treuliau i wirfoddolwyr fel petrol, troli neu dryc sachau, offer cegin bach a chostau rhai deunyddiau printiedig cychwynnol fel taflenni a labeli. ***Yn y sefyllfa hon, y busnes fyddai'r ymgeisydd priodol oherwydd natur arbenigol y pryniant sydd ei angen.***

A ddylwn i gynnwys TAW yn fy nghais?

Dim ond os na allwch ei hawlio yn ôl gan Gyllid a Thollau EM y cewch gynnwys TAW yn y cais. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am geisio cyngor ar TAW. Yn anffodus, ni all y Cyngor roi'r cyngor hwn.

Am ba hyd y mae grant yn para?

Mae cyllid ar gael tan 31 Rhagfyr 2020 a rhaid ei wario a'i hawlio erbyn y dyddiad hwn. Bydd gofyn i chi hefyd adrodd ar gynnydd eich prosiect yn unol â thelerau ac amodau eich cynnig grant.

Sut caiff y grant ei dalu?

Fel arfer, caiff y grant ei dalu'n ôl-weithredol. Fodd bynnag, siaradwch â ni am eich sefyllfa ariannol a byddwn yn gwneud ein gorau i weithio allan y dull gorau o dalu grantiau i'ch galluogi i gyflawni eich prosiect.

Beth yw'r amserlen ymgeisio?

Gwahoddir ceisiadau i'r **Gronfa Grant Argyfwng Arwyr y Fro** o Ebrill 2020.

Gallwch gyflwyno eich cais ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgeisio. Cadwch mewn cysylltiad â ni a chofiwch fod croeso i chi ofyn cwestiynau. Os yw eich cais yn llwyddiannus, cewch lythyr ariannu a dogfennau cysylltiedig i'w harwyddo a dychwelyd. Bydd y pecyn yn esbonio unrhyw amodau, y broses gymeradwyo a sut i gyflwyno cais am grant. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ar y pwynt hwn, byddwn yn hapus i'ch helpu.

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad a beth yw'r meini prawf asesu?

Bydd y Swyddog Grantiau perthnasol yng Nghyngor Bro Morgannwg yn archwilio'ch cais ac yn trafod unrhyw ymholiadau gyda chi. Arweinydd y Cyngor fydd yn gwneud y penderfyniadau ar geisiadau, ynghyd â'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Gweithredol Datblygu Economaidd.

Caiff pob cais ei asesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

Meini Prawf Asesu

Bydd cynigion prosiect Cronfa Grant Argyfwng Arwyr y Fro yn cael eu sgorio gan ddefnyddio'r raddfa sgorio ganlynol o 0 – 25 i roi cyfanswm uchaf posibl o 100. Ni fydd ceisiadau sy'n sgorio llai na'r trothwy ansawdd isaf o 60 yn cael eu hystyried.

	Maen Prawf Blaenoriaeth	Sgôr
1	Tystiolaeth o'r angen am y prosiect ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio a chyflwyno'r prosiect	0 - 50
2	Gwerth am arian a chanlyniadau	0 - 25

3	Cynaliadwyedd a photensial ar gyfer effaith hirdymor	0 - 25
	Cyfanswm	100

Maen Prawf 1 - Tystiolaeth o'r angen am y prosiect ac ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio a chyflwyno'r prosiect - Sgôr o hyd at 50

Dylid datblygu projectau yn ymateb i wybodaeth leol fanwl a thystiolaeth gadarn o'r angen. Y cymunedau lleol eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i ddeall eu hamgylchiadau lleol a phennu'r rhwystrau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu. Dylai ymgeiswyr egluro **pwys** yw eu rhanddeiliaid; **sut** y cawsant eu cynnwys wrth ddatblygu'r prosiect a sut y byddant yn parhau i fod yn rhan o'i weithrediad. Dylai ymgeiswyr egluro sut y bydd y prosiect terfynol yn cynrychioli canlyniadau'r ymgysylltu cymunedol.

Maen Prawf 2 - Gwerth am arian a chanlyniadau Sgôr o hyd at 25

Rydyn ni am wybod beth rydych chi'n bwriadu ei wneud trwy eich prosiect. Efallai y byddwch yn gwella iechyd, cyfathrebu, mynd i'r afael ag unigrwydd neu'n darparu gwasanaeth penodol ar gyfer grŵp allweddol yn eich cymuned. Rhwng syniad i ni o'r hyn rydych chi'n gobeithio ei wneud a faint bydd hynny'n ei gostio. Dim ond hyn a hyn o arian sydd gennym ni a bydd prosiectau sy'n gwneud mwy gyda'u grantiau yn sgorio'n uwch yn yr adran hon.

Maen Prawf 3 - Cynaliadwyedd a photensial ar gyfer effaith hirdymor Sgôr o hyd at 25

Dylai ymgeiswyr egluro pa werth ychwanegol a ddaw o'u prosiect, y tu hwnt i'r gweithgareddau craidd y mae'n eu gwneud ar hyn o bryd, a goblygiadau posibl y buddsoddiad. Wrth ddatblygu prosiectau, dylid ystyried sut gall y prosiect wella gwasanaethau yn y dyfodol.

Deunydd Marchnata / Hyrwyddo

Mae eich cynnig grant yn amodol ar ddefnyddio logos y partneriaid ariannu ar gynnyrch marchnata / hyrwyddo cysylltiedig e.e. taflenni, gwefan, paneli dehongli. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn rhoi'r rhain i gyd i chi gyda'ch llythyr dyfarnu.

A fydd angen i mi fonitro'r prosiect?

Fel rhan o'ch cais byddwch wedi nodi'r hyn rydych yn gobeithio ei gyflawni gyda'ch cyllid. Gallai hyn fod y nifer o unigolion sy'n elwa neu dderbyn hyfforddiant, neu nifer y prosiectau sy'n cael eu cwblhau. Byddwn yn rhoi'r pethau hyn yn eich cytundeb ariannu a byddwn yn gofyn i chi gyflwyno adroddiad i ni maes o law ar effeithiau eich prosiect.

Rhaid rhoi gwybod i Gyngor Bro Morgannwg os ydych yn bwriadu newid defnydd, neu werthu unrhyw adeilad neu offer a brynwyd, a adenillwyd neu a addaswyd gan ddefnyddio'r grant hwn. Os na fydd hyn yn parhau i adlewyrchu amcanion y cynllun grant, gall CBM adennill oddi wrthyh

arian hyd at gyfanswm y grant a dalwyd mewn perthynas â'r prosiect hwnnw am gyfnod o hyd at 5 mlynedd o daliad olaf y grant.

Dyddiad gwaredu'r ased(au)	Swm i'w ad-dalu
O fewn blwyddyn	Arian i'w ad-dalu'n llawn
O fewn 2 flynedd	80% o'r arian i'w ad-dalu
O fewn 3 blynedd	60% o'r arian i'w ad-dalu
O fewn 4 blynedd	40% o'r arian i'w ad-dalu
O fewn 5 mlynedd	20% o'r arian i'w ad-dalu
Ar ôl 5 mlynedd	Dim arian i'w ad-dalu

Faint o ddyfynbrisiau sydd angen i mi eu cyflwyno?

Mae'r tabl tendro isod yn nodi'r weithdrefn y bydd angen i chi ei dilyn. Yn ddelfrydol, dylai'r dyfyniad/au gael eu cyflwyno gyda'ch cais. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid eu cyflwyno gyda'ch cais cyntaf am daliad grant.

Gwybodaeth Tendro

Amcan o'r Gwerth	Camau Tendro Gofynnol
Llai na £250	Un dyfynbris ysgrifenedig gan un cyflenwr
£250 i £5,000	Dyfynbrisiau ysgrifenedig gan o leiaf ddau gyflenwr ar bapur pennawd neu e-bost gan y cyflenwr i'r un fanyleb. Cadwch gofnod o'ch manyleb os gwelwch yn dda.

Rhaid aros i'ch cais am gyllid grant gael ei gymeradwyo cyn cychwyn gwaith. Ni fydd arian grant ar gael ar gyfer gwaith a wneir cyn rhoi cymeradwyaeth ysgrifenedig.

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gwblhau'r holl waith a gymeradwyir a chyflwyno tystiolaeth o daliad cyn y gall hawlio'r grant.

PWYSIG

Mae'n bwysig i chi ddarllen y nodiadau hyn a'r canllaw cam-wrth-gam ar gwblhau'ch ffurflen gais - byddant o gymorth i chi i gwblhau eich cais yn gywir ac i'ch helpu i osgoi unrhyw oedi yn y prosesu.

Mae'r cynllun hwn yn cael ei gyd-ariannu gan Gyngor Bro Morgannwg a Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020 (RhDG), sy'n cael ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.